

Gofynwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r trefniadau ailagor ysgolion ym mis Ionawr 2021. Yn anffodus, mae'r sefyllfa bresennol o ran trosglwyddiad Covid-19 ledled Cymru yn ei gwneud yn anodd iawn i ni ragweld yr effaith y bydd yn ei chael ar lefelau staffio yn ein hysgolion yn dilyn gwyliau'r Nadolig. Ein blaenoriaeth yw lleihau'r tarfu ar addysg ein plant a'n pobl ifanc gymaint â phosibl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i ysgolion adolygu eu lefelau staffio ar ddechrau'r tymor newydd ac o ganlyniad bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

O ganlyniad, bydd pob ysgol yn Abertawe ar gau i blant ar y 4ydd a 5ed o Ionawr. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol asesu lefelau argaeledd staff, adolygu'r holl asesiadau risg ac ystyried unrhyw ofynion pellach mewn perthynas â chynllunio tymor y gwanwyn. Bydd eich ysgol yn cysylltu â chi i gadarnhau'r trefniadau o 6 Ionawr ymlaen ond disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu croesawu pob disgybl yn ôl erbyn 11 Ionawr os bydd amgylchiadau'n caniatáu hynny.

Efallai mai dim ond ychydig o ddisbarthiadau all ddychwelyd, a bydd rhai disgyblion yn derbyn eu haddysg o bell. Bydd cymorth ar y safle ar gael i blant gweithwyr allweddol a dysgwyr bregus; fodd bynnag, fel o'r blaen dim ond pan fydd holl opsiynau eraill wedi'u hystyried y dylid defnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae hyn er mwyn diogelu lles disgyblion a staff yn yr ysgolion. Cysylltwch â'ch ysgol i gael rhagor o wybodaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhoi rhywfaint o eglurder i chi ar ddychwelyd i'r ysgol, fodd bynnag, bydd eich ysgol yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi ddechrau mis Ionawr. Gwn nad yw'r term hwn wedi bod yn hawdd a hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i geisio lleihau lledaeniad y feirws, a rhaid inni barhau i ddilyn y canllawiau i amddiffyn ein hunain ac eraill. Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a'ch teulu.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro